

20 - Penygroes i Glynnog Fawr 6.3 milltir/10.5 km Map Archwilio OS 254

O ganol Penygroes cerddwch ar hyd y Stryd Fawr ac wrth y Swyddfa Bost trowch i mewn i Stryd yr Wyddfa a'i dilyn i Faes y Farchnad ac i'r chwith i Ffordd yr Orsaf ac yna i'r dde i Ffordd Clynnog i ymuno â llwybr beiciau rhif 8 wrth y bont droed.

Ewch dros y bont droed, dros yr A487 a throi i'r dde a dilyn y llwybr beiciau nes cyrhaeddwch lwybr troed ar eich ochr chwith (Cyfeirbwyntiau Llwybr Arfordir Cymru). Trowch i'r chwith yma a dilyn y llwybr yn syth o'ch blaen, gan anwybyddu'r un sy'n mynd i ffwrdd i'r chwith, nes dewch i gae mawr. Yn y cae yma cerddwch gyda'r wal ar eich ochr dde at y trac. Trowch i'r chwith ar hyd y trac a'i ddilyn at y lon. Croeswch dros y lôn i fynd i lawr y trac fferm tuag at fferm Pant Eithiniog. Pasiwch y fferm yma a pharhau ar hyd y trac i fynd heibio ffermydd Eithiniog Uchaf ac Eithiniog Ganol. Nawr mae'r trac yn troi'n wyrdd. Dilynwch hwn i'r lôn a throwch i'r chwith.

Cymerwch y trac fferm nesaf ar y dde a cherdded ymlaen at lwybr ceffyl sydd ag arwydd llwybr troed. Croeswch dros y bont droed a dilyn y llwybr i'r dde i ymuno â'r ffordd fynediad i Leuar Fawr. Ewch rhwng y ffermyd a'r buarth fferm i fynd tuag at y gatiau o'ch blaen ac ewch drwy'r ochr dde, a pharhau ar hyd y llwybr troed i Lleuar Fach. Trowch i'r dde tuag at y fferm a bron ar unwaith ewch i'r chwith drwy giât fechan cyn y wal. Cerddwch ar hyd ochr y sgubor fawr at giât i mewn i gae mawr. Croeswch y cae yma i fynd drwy giât a throi i'r dde. Dilynwch y ffens at y gwrych a throi i'r chwith gan gerdded gyda'r gwrych ac yna'r ffens ar y dde. Ewch drwy'r giât sydd ychydig ffordd oddi wrth y ffens ar ei ochr chwith ac yna parhewch i gerdded gyda'r ffens ar eich ochr dde heibio Tŷ yn y Rhos. Erbyn hyn mae'r ffens yn wrych newydd. Parhewch gyda hwn yn dal i fod ar eich ochr dde i fynd drwy giât at drac gwyrdd. Ewch drwy giât arall a throi i'r chwith ar hyd y lôn.

Trowch i'r dde wrth y gyffordd T gyntaf ac i'r chwith (i fyny'r allt) ar hyd lôn arall. Mae'r lôn yn mynd i lawr yr allt ac ar y gwaelod cymerwch y llwybr troed ar eich ochr dde dros bont droed ar hyd ochr y rhyd. Cerddwch ar hyd y lôn i fynd drwy giât bren ar ochr chwith y tŷ. Cerddwch i fyny'r allt (chwith) gyda'r gwrych ar eich ochr chwith. Ewch ymlaen drwy ddwy giât arall i fynd i mewn i fuarth fferm Bryn Hafod. Ewch rhwng yr adeiladau ac i lawr dreif y fferm at y ffordd. Trowch i'r dde i basio safle Capel Uchaf ac yna i lawr i bentref Clynnog Fawr. Wrth i chi gyrraedd y pentref cymerwch y llwybr troed metlin tu ôl i'r tai. Mae hwn yn arwain i ganol y pentref. Trowch i'r dde yna i'r chwith i gyrraedd Eglwys Clynnog Fawr.